



Gwasanaeth Tân Ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales
Fire and Rescue Service



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru
South Wales
Fire and Rescue Service

Pecyn Gwybodaeth 2023 Recriwtio i'r Ganolfan Rheoli Tân ar y Cyd

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

Cynnwys

Rôl Diffoddwr Tân yr Ystafell Reoli	Tudalen 3
Swydd-ddisgrifiad	Tudalennau 4 a 5
Manyleb y Person	Tudalen 6
Cyfraddau Cyflogau	Tudalen 7
A ydych chi wir am fod yn Ddiffoddwr Tân yr Ystafell Reoli?	Tudalen 8
Y Broses Ddethol	Tudalennau 9-12

Cyfleoedd Cyfartal

Mae'r ddau Wasanaeth yn cydnabod gwir werth amrywiaeth yn y gweithlu, ac rydym am fynd ati'n rhagweithiol i annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i wneud cais.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i

www.southwales-fire.gov.uk
www.mawwfire.gov.uk

I gael gwybodaeth gyffredinol am recriwtio, cysylltwch â:

01443 232200
personnel@southwales-fire.gov.uk

[01267 226832](tel:01267226832)
AdnoddauDynol@tangc.gov.uk

Rôl Diffoddwr Tân yr Ystafell Reoli

Mae'r Ganolfan Rheoli Tân ar y Cyd yn gwasanaethu Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Mae'r ddau yn wasanaethau modern sy'n addasu ac yn newid i adlewyrchu anghenion y cymunedau diwylliannol amrywiol y maent yn eu gwasanaethu. Mae Diffoddwyr Tân Ystafell Reoli y Ganolfan Rheoli Tân ar y Cyd yn unigolion cadarnhaol sy'n hyblyg ac yn gallu ymgorffori'r newidiadau hyn yn eu bywydau gwaith i ddarparu cymorth i holl aelodau'r gymuned, gan gynorthwyo mewn ystod eang o sefyllfaoedd. Mae'r Ganolfan Rheoli Tân ar y Cyd wedi'i lleoli yn y Gyd-ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus ym Mhencadlys Heddlu De Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Trwy ddefnyddio technoleg soffistigedig i nodi cyfeiriadau, lleoliadau'r rhai sy'n galw, a safle'r peiriannau tân agosaf, mae Diffoddwyr Tân yr Ystafell Reoli yn ateb galwadau brys ac yn rhoi adnoddau tân ar waith. Maent yn cymryd rhan lawn yn y broses o ddod â digwyddiadau i ben yn llwyddiannus, ac yn defnyddio technegau arbenigol i drin galwadau a chefnogi'r rheiny sy'n galw ac sydd, o bosibl, yn ofnus, wedi drysu neu yn sownd. Maent yn darparu cymorth gweithredol i ddigwyddiadau trwy olrhain a monitro cynnydd pob digwyddiad, gan gadw mewn cysylltiad trwy'r rhwydwaith radio cenedlaethol a ddefnyddir gan yr holl wasanaethau brys.

Mae'n rhaid i Ddiffoddwyr Tân yr Ystafell Reoli allu prosesu gwybodaeth yn gyflym a blaenoriaethu tasgau i nodi pa un sydd â'r lefel brys uchaf. Mae'r tasgau'n amrywio o drosglwyddo cyngor a all achub bywyd i'r rhai sy'n galw, i ateb llinellau ffôn gweinyddol a chysylltu â'r Heddlu a'r Gwasanaeth Ambiwlans.

Mae rôl Diffoddwr Tân yr Ystafell Reoli yn cynnig bodlonrwydd swydd uchel. Mae pob diwrnod yn wahanol, ac, yn ystod yr holl weithgarwch, mae'n ofynnol i'r staff gyflawni i'r safonau uchaf posibl.

Swydd-ddisgrifiad

Adran	Ymateb Brys
Swydd	Gweithredwr Rheoli Brys 999
Lleoliad	Y Ganolfan Rheoli Tân ar y Cyd – Pencadlys Heddlu De Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr
Yn Atebol i	-Y Rheolwr Gorsaf (Yr Ystafell Reoli)

Mae'r swydd-ddisgrifiad hwn yn cyfeirio at brif ddiben a chyfrifoldebau'r swydd. Nid yw, o reidrwydd, yn rhestru'n fanwl yr holl dasgau sy'n ofynnol i ymgymryd â'r cyfrifoldebau hyn. Bydd y swydd-ddisgrifiad hwn yn cael ei adolygu yn ôl yr angen er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni gofynion busnes y Gwasanaeth.

PRIF DDIBEN Y SWYDD

- Gweithio'n rhan o dîm i ateb galwadau brys a galwadau nad ydynt yn rhai brys gan aelodau o'r cyhoedd ac asiantaethau eraill.
- Pennu'r camau gofynnol i ddiwallu anghenion unrhyw argyfwng, gan roi adnoddau ar waith yn unol â hynny.

DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU:

- 1 Ateb a phrosesu galwadau brys, gan ddarparu cymorth priodol i'r sawl sy'n galw.
- 2 Trosglwyddo a chael negeseuon dros y radio.
- 3 Bod yn hyfedr wrth weithredu cyfarpar yr Ystafell Reoli.
- 4 Sicrhau bod y swyddogion a'r peiriannau cywir sydd ar gael yn hysbys bob amser.
- 5 Hysbysu'r gwasanaethau brys eraill a'r cwmnïau cyfleustodau, fel y nodir yn y weithdrefn.
- 6 Hysbysu swyddogion y Gwasanaeth, fel y nodir yn y weithdrefn.
- 7 Bod yn wybodus mewn perthynas â'r holl weithdrefnau parhad busnes a gwytnwch, gweithdrefnau wrth gefn a gweithdrefnau rheolaeth eilaidd.
- 8 Cynnal cofnodion cywir o ddigwyddiadau, lle y caiff pob gweithgarwch sy'n ymwneud â digwyddiadau ei gofnodi.
- 9 Ateb a phrosesu galwadau gweinyddol, gan ddarparu'r cymorth priodol i'r sawl sy'n galw.
- 10 Bod yn gwbl ymwybodol o Bolisiâu allweddol gorsafoedd y Gwasanaeth, a dwyn unrhyw ddiffygion i sylw goruchwyliwr yr wylfa.
- 11 Sicrhau bod pob diffyg yn cael ei gofnodi a'i adrodd yn gywir, yn ôl yr angen.
- 12 Cyflawni dyletswyddau gweinyddol, fel sy'n ofynnol gan swyddog yr wylfa.
- 13 Cydweithredu â phob asiantaeth frys ledled Cymru a'r tu hwnt, yn ôl y gofyn.
- 14 Cynorthwyo gydag arddangosiadau neu anerchiadau i ymwelwyr â'r ystafelloedd rheoli, yn unol â chyfarwyddyd Swyddog yr Wylfa.
- 15 Os bydd angen, cynorthwyo i hyfforddi a goruchwylio Diffoddwyr Tân yr Ystafell Reoli sy'n datblygu yn eu rôl.

GOFYNION SAFONOL Y GWASANAETH

- Mynd ar gyrsiau hyfforddi mewnol ac allanol yn ôl y gofyn.
- Cyflawni'r holl ddyletswyddau sy'n gymesur â'r radd a'r swydd.
- Cydweithredu'n llawn ag unrhyw gynllun neu gynllun peilot a gyflwynir yn yr adran neu ledled y Gwasanaeth.
- Gweithredu egwyddorion Polisiâu Cyfleoedd Cyfartal ac Amrywiaeth a Chynlluniau Iaith Gymraeg y Gwasanaeth wrth gyflawni'r dyletswyddau uchod.
- Glynw wrth Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch/Bolisïau a Gweithdrefnau Perthnasol y Gwasanaeth, a chymryd gofal rhesymol dros eich iechyd a'ch diogelwch eich hun, ynghyd ag iechyd a diogelwch unigolion eraill y gall eich gweithredoedd/esgeulustod gael effaith andwyol arnynt.

GWERTHOEDD SEFYDLIADOL

Wrth gyflawni'r rôl uchod, mae'n ofynnol i holl gyflogeion y ddau sefydliad arddel a hyrwyddo Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth sy'n berthnasol i'r Gwasanaeth sy'n eu cyflogi.

999 Gweithredwr Rheoli Brys Manyleb Bersonol

Ffactor	Tystiolaeth	Hanfodol/ Dymunol	Y modd y bydd yn cael ei Nodi
Cymwysterau	Sgiliau Rhifedd a Llythrennedd hyd at Lefel 2 Sgiliau Hanfodol neu gymwysterau cyfatebol (e.e. Sgiliau Allweddol Lefel 2, TGAU Mathemateg a Saesneg).	Hanfodol	Prawf Gallu
Gwybodaeth/ Profiad	Sgiliau bysellfwrdd, gyda'r gallu i deipio o leiaf 35 gair y funud	Hanfodol	Prawf Gallu
	Profiad gweithredol o raglenni seiliedig ar Windows	Hanfodol	Ffurflen gais
	Profiad o ddefnyddio gwybodaeth o gronfeydd data	Hanfodol	Proses Ddethol/ Prawf Gallu
	Ystafell reoli /Profiad mewn canolfan alwadau	Dymunol	Ffurflen gais
	Profiad o ofal cwsmeriaid	Dymunol	Ffurflen gais
	Y gallu i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg	Dymunol	Ffurflen gais
Arddull Bersonol	Dealltwriaeth o'r gwahaniaethau rhwng pobl, ac yn amlygu parch tuag atynt. Ymrwymiad i fabwysiadu dull teg o ymdrin â phobl eraill.	Hanfodol	Proses Ddethol
	Y gallu i weithio mewn cydymffurfedd llawn â pholisïau a gweithdrefnau cyfrinachedd.	Hanfodol	Proses Ddethol
	Y gallu i gynnal agwedd hyderus a chadarn mewn sefyllfaoedd tra heriol.	Hanfodol	Ffurflen gais/ Proses Ddethol
	Yn agored i newid ac yn meddu ar y dymuniad i fynd ati i geisio cefnogi'r newid hwnnw.	Hanfodol	Ffurflen gais/ Proses Ddethol
Rhyngbersonol	Y gallu i weithio'n effeithiol gydag eraill, a hynny o fewn y Gwasanaeth Tân ac Achub ac yn y gymuned.	Hanfodol	Ffurflen gais/ Proses Ddethol
	Y gallu i gyfathrebu mewn modd effeithiol, ar lafar ac yn ysgrifenedig, ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd gwahanol. Mae'r gofyniad i ddarparu cyfarwyddiadau clir yn hanfodol, a bydd ynganiad clir yn cael ei asesu.	Hanfodol	Proses Ddethol
	Yr ymrwymiad a'r gallu i ddatblygu eich hun a phobl eraill.	Hanfodol	Ffurflen gais/ Proses Ddethol
Tasg	Y gallu i ddeall, galw i gof, cymhwyso ac addasu gwybodaeth berthnasol mewn ffordd drefnus, ddiogel a systematig.	Hanfodol	Proses Ddethol/ Prawf Gallu
	Y gallu i gynnal ymwybyddiaeth glir o'r amgylchedd er mwyn hyrwyddo gwaith diogel ac effeithiol.	Hanfodol	Proses Ddethol
	Y gallu i fabwysiadu ymagwedd gydwybodol a rhagweithiol tuag at waith er mwyn cyflawni a chynnal safonau rhagorol, gan hefyd amlygu uniondeb personol.	Hanfodol	Ffurflen gais/ Proses Ddethol

Nodwch:

- Rhaid i'r ymgeiswyr fod dros 17 blwydd a 6 mis oed ar yr adeg y gwneir y cais.
- Mae'r rôl hon yn cynnwys cymryd gwybodaeth dros y ffôn mewn amgylchedd swnllyd. Rhaid i'r ymgeiswyr allu clywed yn glir (gyda chymorth neu hebdo).

Cyfraddau Cyflogau

Diffoddwr Tân yr Ystafell Reoli	£ Blynyddol
Hyfforddai	22,981
Yn datblygu	23,938
Cymwys	30,632

Oriau gwaith

Byddwch yn gweithio wythnos 42 awr yn ôl trefn rota, yn unol â system ddyletswydd.

A ydych am fod yn Ddiffoddwr Tân yn yr Ystafell Reoli?

Mae rôl Diffoddwr Tân yr Ystafell Reoli yn ganolog i allu'r gwasanaeth tân ac achub i ymateb mewn modd effeithlon ac effeithiol i ddigwyddiadau ledled ardaloedd Canolbarth a Gorllewin a De Cymru. Rydym yn ymrwymedig i gyflogi gweithlu cydnerth er mwyn sicrhau'r gwasanaeth gorau ar gyfer ein Cymunedau.

A ydych yn awyddus i helpu i 'Ddiffodd Tanau'?

Ni ellir gwadu bod rôl Diffoddwr Tân yr Ystafell Reoli yn heriol ac yn werth chweil. Bydd arnoch angen y stamina i weithio mewn amgylchedd dynamig yn unol â system shifftiau. Bydd hefyd arnoch angen synnwyr cyffredin, ymrwymiad a brwdfrydedd i'ch cynnal!

Beth yw'r manteision i chi?

Mae hon yn wahanol i bob swydd arall. Gall fod yn anrhagweladwy, yn gyffrous ac yn werth chweil. Mae yna hefyd y boddhad a'r parch sy'n deillio o ddarparu gwasanaeth hanfodol i gymunedau Canolbarth a Gorllewin a De Cymru.

Trefnir dysgu a datblygiad parhaus ar gyfer holl Ddiffoddwyr Tân yr Ystafell Reoli er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol ym mhob agwedd ar eu gwaith.

Yn dal i fod â diddordeb mewn dod yn Ddiffoddwr Tân yn yr Ystafell Reoli?

Mae'r rhestr ganlynol o gwestiynau wedi cael ei chynllunio i'ch helpu i benderfynu a ydych chi wir am fod yn Ddiffoddwr Tân yr Ystafell Reoli. Ticiwch y ✓ neu'r ✗ ar gyfer pob un o'r cwestiynau canlynol.

	✓	✗
A ydych yn rhywun y mae eraill yn ei ystyried yn ddibynadwy?		
A ydych yn barod i weithio diwrnodau, nosweithiau, gyda'r nos, ar benwythnosau ac ar wyliau cyhoeddus?		
A ydych yn barod i weithio ar ddiwrnodau dathlu: Dydd Sant Ffolant, Nos Galan, Dydd Nadolig, Y Pasg, Diwali, Eid?		
A oes gennych ddiddordeb go iawn mewn pobl?		
A allwch reoli eich lefelau egni mewn sefyllfaoedd hirfaeth a heriol?		
A ydych yn barod ar gyfer gofynion gweithio mewn gwasanaeth disgybledig mewn lifrai, lle bydd rhaid i chi dderbyn gorchmynion gan bobl eraill?		
A ydych yn gallu derbyn bod angen cadw at reolau sy'n nodi'r hyn y gallwch neu na allwch ei wisgo?		
A ydych yn rhywun y gall pobl ddibynnu arnoch bob amser i gyrraedd rhywle mewn pryd?		
A ydych yn gallu ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gynrychioli'r Gwasanaeth pan fyddwch yn y gwaith a phan na fyddwch yn y gwaith?		
A ydych yn dymuno gweithio yn rhan o dîm clòs?		
A ydych yn gallu cyd-dynnu'n dda â phobl o gefndiroedd a diwylliannau gwahanol?		
A oes gennych y sensitifrwydd i ddelio ag aelodau o'r cyhoedd pan fyddant yn drallodus, wedi drysu neu'n bod yn rhwystr?		
A ydych yn gallu cyfleu gwybodaeth bwysig i grwpiau o blant a/neu oedolion?		
A ydych yn gallu gweithio o dan bwysau?		
A allwch ganolbwyntio mewn amgylchedd prysur?		
A ydych yn gallu meddwl yn sydyn a datrys problemau pan fyddwch yn gwybod bod llawer yn dibynnu ar y camau a gymerir gennych?		
A ydych wedi ymrwymo i gynnal a datblygu eich sgiliau yn barhaus?		
A ydych yn barod i astudio ar ben eich diwrnod gwaith arferol?		
A allwch gyfleu gwybodaeth fanwl yn glir, a hynny ar lafar ac wedi'i theipio?		

Os ydych wedi ateb POB UN o'r cwestiynau uchod yn gadarnhaol, ac os ydych o'r farn bod gennych y rhinweddau priodol i wasanaethu ac amddiffyn y gymuned yr ydych yn byw ac yn gweithio ynddi, yna rydym am glywed gennych! Darllenwch y Pecyn Gwybodaeth hwn yn ofalus, a llenwch y ffurflen gais ar-lein.

Y Broses Ddethol

Mae'r broses ddethol yn rhychwantu cyfnod penodol, ac yn cael ei rhannu'n chwe cham.

Cam Un – Y Ffurflen Gais

Mae'r ffurflen gais yn chwarae rhan hanfodol yn y broses o lunio rhestr fer. Mae'r dyddiad cau i gyflwyno'r Ffurflen Gais ar-lein wedi'i llenwi fel y nodir yn yr hysbyseb.

Dilynwch y ddolen i'r nodiadau cyfarwyddyd yn Adran Lywio y Ffurflen Ar-lein, a darllenwch y nodiadau yn llawn cyn llenwi'r Ffurflen Gais.

Cam Dau – Llunio'r Rhestr Fer

Bydd yr wybodaeth a roddwch yn eich Ffurflen Gais yn pennu a fyddwch yn symud ymlaen i'r cam nesaf ai peidio. Cofiwch ymateb i'r cwestiynau sydd ynghlwm wrth waelod yr adran ar Fanylion y Swydd yn yr hysbyseb CRAIDD (yr adran lywio). Atodwch y rhain ar ffurf dogfen pdf yn adran berthnasol y ffurflen ar-lein.

Gallwch dynnu ar eich profiadau o'ch bywyd gartref, eich gweithgareddau hamdden, eich gwaith (am dâl neu'n ddi-dâl), eich gwaith gwirfoddol neu eich addysg i ateb y cwestiynau.

Cofiwch y pwyntiau cyffredinol canlynol wrth i chi llenwi'r adran hon.

- Mae'n bwysig eich bod yn ateb pob cwestiwn;
- Mae pob cwestiwn yn gofyn i chi ddisgrifio profiad **penodol**;
- Ar gyfer pob cwestiwn, dylech ddisgrifio eich profiad orau mewn perthynas â'r cwestiynau a ofynnir;
- Byddwch yn benodol ynghylch un neu ddau weithgaredd yr ydych yn eu gwneud ar hyn o bryd neu yr ydych wedi eu gwneud, yn hytrach nag ysgrifennu'n gyffredinol;
- Yn achos pob cwestiwn, disgrifiwch yr hyn a wnaethoch, pam y gwnaethoch hynny, a'r hyn a ddigwyddodd o ganlyniad;
- Defnyddiwch enghreifftiau gweddol ddiweddar o'r hyn yr ydych wedi'i wneud;
- Mae'n syniad da ysgrifennu eich atebion yn fras cyn copïo'r fersiwn derfynol i'r ffurflen gais;
- Rhaid i'ch ateb ddisgrifio'r hyn yr ydych wedi'i wneud. Os byddwch yn darparu gwybodaeth anwir, bydd eich cais yn cael ei wrthod.

Cam Tri – Profion Gallu

Mae'r cam hwn yn eich galluogi i ddangos bod gennych y ddawn i ymgymryd â gwaith ar lefel Diffoddwr Tân yr Ystafell Reoli. Byddwch yn ymgymryd â chyfres o brofion galluedd, gan gynnwys:

- Prawf clywdeipio, lle cewch eich asesu ar gyfer cywirdeb a chyflymder.
- Prawf rhesymu llafar, a fydd yn nodi eich sgiliau deall ac amgyffred.
- Prawf rhifiadol, lle bydd yn ofynnol i chi wneud cyfrifiadau o'r math y bydd angen i chi eu gwneud yn rhan o'r rôl.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch eich gwahodd i'r Cam Dethol, sy'n cynnwys Cyfweliad.

Cam Pedwar – Dethol

Mae'r cam hwn yn cynnwys cyfweliad a gynhelir yn y Gyd-ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Yn ystod y cyfweliad, gofynnir cyfres o gwestiynau i chi, sydd wedi'u cynllunio i fesur eich rhinweddau a'ch priodoleddau personol. Nod y cwestiynau hyn yw asesu bod gennych ymagwedd gadarnhaol at waith a phobl. Maent yn gofyn i chi ddarparu enghreifftiau o weithgareddau yr ydych wedi'u gwneud yn y gorffennol, ac esbonio sut y bu i chi fynd ati i gyflawni'r gweithgareddau hyn a'r ystyriaethau yr ydych wedi'u gwneud. Unwaith eto, gallwch dynnu ar eich profiadau o'ch bywyd gartref, eich gweithgareddau hamdden, eich gwaith (am dâl neu'n ddi-dâl), eich gwaith gwirfoddol neu eich addysg i ateb y cwestiynau.

Gofynnir cwestiynau i chi hefyd am eich gwybodaeth am rôl yr Ystafell Reoli yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a De Cymru, a'ch dealltwriaeth o'r rôl honno.

Bydd disgwyl i chi gynnal ymarfer byr dros y ffôn yn dilyn y cyfweliad.

Cam Pump – Prawf Meddygol

Gall Diffoddwyr Tân yr Ystafell Reoli ddod i gysylltiad â galwadau seicolegol heriol mewn sefyllfaoedd blinderus.

Pennir addasrwydd meddygol trwy gyfrwng asesiad unigol er mwyn osgoi unrhyw wahaniaethu diangen. Am resymau ymarferol, ni ellir gwneud hyn hyd nes y camau olaf yn y broses recriwtio. Gall natur ac effaith cyflyrau meddygol amrywio. Felly, nid yw'n bosibl cadarnhau cyflyrau meddygol a fyddai'n annerbyniol cyn i asesiad meddygol unigol gael ei gynnal. Fodd bynnag, os oes gennych gyflwr meddygol neu hanes o gyflwr meddygol a allai achosi problemau, dylai'r canllawiau cyffredinol canlynol fod o gymorth wrth ystyried eich addasrwydd meddygol cyn gwneud cais.

Mae cyflwr meddygol neu gyfyngiad gweithredol a fyddai, er gwaethaf unrhyw addasiadau rhesymol, yn arwain at gynnydd sylweddol yn y risg y gallai'r canlynol ddigwydd yn y gwaith yn annerbyniol.

- Llewyg neu anallu sydyn;
- Crebwyll diffygiol;
- Ymwybyddiaeth yn newid;
- Salwch neu anaf corfforol neu seicolegol sylweddol;
- Unrhyw effaith arall a fyddai'n peri risg iechyd a diogelwch sylweddol i chi ac i eraill.

Bydd yr asesiad unigol yn cynnwys rhoi ystyriaeth ddyledus i unrhyw farn feddygol neu adroddiadau meddygol y byddwch efallai am eu cyflwyno. Fodd bynnag, bydd y penderfyniad ynghylch arwyddocâd unrhyw risgiau a nodir yn eiddo i'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

Bydd yr Asesiad Meddygol yn cynnwys y canlynol:

- Holiadur Meddygol;
- Prawf lliwddallineb;
- Prawf Awdiometreg (clyw);
- Mesur eich pwysedd gwaed;

Nodwch nad ydym yn cynnal profion llygaid llawn ar gyfer rôl Diffoddwr Tân yr Ystafell Reoli – caniateir i Weithredwyr yr Ystafell Reoli wisgo sbectol neu lensys cyffwrdd.

Cam Chwech – Gwiriadau Cyn Cyflogi

Mae pob penodiad yn ddibynnol ar y canlynol yn dod i law yn foddhaol:

Tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol

Gwiriad hunaniaeth

Proses Fetio yr Heddlu

Prawf Meddygol

Geirdaon

Penodi

Os byddwch yn llwyddiannus ym mhob cam o'r broses recriwtio, bydd cynnig yn cael ei wneud pan fydd swydd wag ar gael. Cynhelir y cwrs cyntaf ar gyfer recriwtiaid ddechrau 2023. Mae'r cynnig hwn yn amodol ar anghenion a gofynion y sefydliad. Os nad oes yna swydd wag ar gael ymhlith y Gwasanaethau, bydd eich manylion yn cael eu cadw ar restr wrth gefn, a chyfeirir at y rhestr hon pan ddaw swydd wag ar gael. Mae'r rhestr wrth gefn yn ddilys am 18 mis.

Mae cynnig cyflogaeth yn amodol ar gael geirdaon boddhaol. Os bydd geirdaon anfoddhaol yn dod i law, bydd y cynnig o swydd yn cael ei dynnu'n ôl.

Cwrs Hyfforddeion

Darperir hyfforddiant llawn i arfogi staff newydd â sgiliau sylfaenol Diffoddwr Tân yr Ystafell Reoli.

Bydd yn ofynnol i chi ddirnad cryn dipyn o ddysgu, yn ddeunyddiau damcaniaethol ac ymarferol, fel ei gilydd. Bydd hefyd yn ofynnol i chi astudio ac adolygu yn eich amser eich hun. Bydd eich cynnydd yn cael ei fonitro'n barhaus trwy gyfrwng profion ysgrifenedig, llafar ac ymarferol – bydd yn rhaid amlygu lefel benodol o gymhwysra mewn meysydd diffiniedig i'ch galluogi i lwyddo yn y cwrs hyfforddeion.

Mae'r Cwrs Hyfforddeion yn cynnwys dau gam.

Cam Un – mae'r cam hwn yn gwrs chwe wythnos, yn yr ystafell ddosbarth, pan fyddwch yn gweithio oriau swyddfa.

Cam Dau – mae'r cam hwn yn para chwe chylch dyletswydd ac yn digwydd yn yr amgylchedd gwaith lle y byddwch yn gweithio ochr yn ochr â'ch gwylfa ddynodedig ac yn dilyn yr un patrwm shifftiau â'ch cyd-weithwyr.

Gofynion Ychwanegol

Bydd Gwasanaethau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin a De Cymru yn gweithredu addasiadau rhesymol i oresgyn unrhyw anfanteision y gallai ymgeisydd eu hwynebu yn ystod y broses recriwtio ac, os bydd yn llwyddiannus, yn ystod ei gyflogaeth gyda ni. Nodwch unrhyw ofynion arbennig a allai fod gennych ar y Ffurflen Gais, neu, fel arall, cysylltwch â ni'n uniongyrchol er mwyn i ni allu trafod eich anghenion.

Os oes gennych ymholiadau pellach, cysylltwch â:

Adnoddaudynol@tangc.gov.uk neu personnel@southwales-fire.gov.uk